

## ❖ Y NADOLIG AR DRAWS Y BYD

Dethlir y Nadolig ym mhob rhan o'r byd, a hynny weithiau drwy ddulliau a thraddodiadau gwahanol.

Os gofynnodd rhywun ym mha fodd y gall Sion Corn ymweld â phlant pob cornel o'r byd mewn un noson, y mae hynny, o bosibl, am na ddeallwyd yr holl ffeithiau. Mae'r Nadolig yn cael ei ddathlu gan ddiwylliannau gwahanol ar draws y byd, a hynny gan ddiwylliannau sy'n berthnasol i'r wlad ei hun ac ar ddyddiau gwahanol. Mae'r gwledydd lle siaredir Saesneg yn tueddu i ddilyn traddodiadau mwy Ewropeaidd eu naws lle bo dathlu'r Nadolig yn y cwestiwn. Mae hynny'n wir am wledydd fel Awstralia, Seland Newydd a Chanada – ym mhopeth ond y tywydd.

Un o'r gwledydd cynharaf i ddathlu'r Nadolig yw Awstria a hynny ar Ragfyr 6. Mae dathliadau Nadolig Awstria yn rhai cerddorol iawn, ac mae amryw o garolau mawr y byd wedi hanu o'r wlad honno.

Mae Gwlad Belg yn dathlu'r Nadolig ar Ragfyr 6 ac ar Ragfyr 25, tra mai cofio am Niclas Sant a wneir ar y dyddiad cynharaf. Esgob oedd Niclas yn ninas Myra, yn Nhwrci heddiw, ac wedi ei ganoneiddio, credir iddo ymweld â phob cartref – gan gael mynediad drwy eu simneiau – a gadael anrhegion yno. Yn fwy diweddar, daeth Pere Noel, neu Santa, i rannu anrhegion i'r teulu cyfan cyn Rhagfyr 25. Ar y diwrnod hwnnw byddai pryd traddodiadol a chyfnewid anrhegion.

Un o'r llu manau sy'n dathlu'r Nadolig ar Ragfyr 25 yw Ghana, ond un o'r ychydig fannau lle digwydd hynny ar gyfandir Affrica. Yn Ghana mae llawer o baratodau ar gyfer yr ŵyl gyda llawer o addurno'n digwydd. Yn rhai o'r cyfarfodydd llawn adeg y Nadolig yn rhai rhannau o Affrica caiff stori'r Nadolig am eni Iesu Grist ei hadrodd wrth y plant yn eu hieithoedd gwahanol cyn bod rhoddion yn cael eu rhannu.

Yn Chile, fel yng ngwledydd eraill America Ladin, golygfa'r preseb yw'r olygfa bwysicaf o bob un. Ar noswyl Nadolig yno bydd gwledd fawr yn dilyn y gwasanaeth yn yr eglwysi. Mae i flodau lliwgar eu lle pwysig yng ngwres mawr dathliadau'r Nadolig yn Costa Rica lle trefnir ymweliadau â'r coedwigoedd, a lle cesglir planhigion prin a blodau heirdd y tegeirian.

Mae'r Nadolig yn ŵyl o bwys mewn gwlad fel Denmarc. Rhennir anrhegion wedi i'r teulu cyfan gerdded sawl gwaith o gylch y goeden gan ganu carolau ac emynau addas. Bydd cyfres o giniawau Nadolig dros ddeuddeng nydd y Nadolig. Yn yr Almaen, mae i ganhwyllau eu lle arbennig yn nathlu'r Nadolig, a gwelir golygfeydd y geni yn y cartrefi.

Ar Ionawr 6, fodd bynnag, y bydd Cristnogion Rwsia yn dathlu eu Nadolig hwy. Cofir yn Rwsia am yr hanesyn am Babwshca, yr hen wraig oedd yn rhannu anrhegion i blant adeg y Nadolig. Yn ôl y chwedl, bu'n aflwyddiannus yn ei hymchwil am lety ac ymborth i'r tri doethion a ddaethai i weld y Baban Iesu.

Mae'r Nadolig yn adeg bwysig ym mhobman lle dethlir hi ym mhob rhan o'r byd a Christnogion yn arbennig yn llawenhau wrth gofio am ddathlu genedigaeth Iesu Grist.

**Ioan W. Gruffydd**